

SWYDDOG CYFATHREBU CORFFORAETHOL

**Pencadlys Llanelwy/ Gweithio Hyblyg - 30 awr yr wythnos
Dros dro (Contract Cyfnod Penodol 12 mis)**

GTaAGC Gradd 07 £36,581 i £39,481 y flwyddyn (pro rata)

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle gwerthfawr o 12 mis o gyfnod penodol i ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol o fewn y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, gan ddarparu cyflenwad ar gyfer cyfnod mamolaeth.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithiwr proffesiynol cyfathrebu helpu i lunio sut rydym yn ymgysylltu â'n staff, cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid. Gan weithio ar draws ystod eang o brosiectau ac ymgyrchoedd, byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu cyfathrebiadau clir, ymgysylltu ac effeithiol sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Gwasanaeth.

Byddwch yn gyfrifol am greu cynnwys cymhellol ar draws amrywiaeth o sianeli, cefnogi cyfathrebu mewnol ac allanol, rheoli gweithgarwch cyfryngau digidol a chymdeithasol, a helpu i amddiffyn a gwella enw da'r Gwasanaeth trwy gyfathrebu rhagweithiol ac ymatebol.

Fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ariannu cymhwyster Cysylltiadau Cyhoeddus Proffesiynol CIPR. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar-lein a bydd yn cael ei chwblhau yn eich amser eich hun, gan roi cyfle gwych i ennill cymhwyster diwydiant cydnabyddedig wrth weithio yn y rôl.

Amdanoch chi

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol cyfathrebu brwdfrydig a rhagweithiol gyda sgiliau ysgrifennu rhagorol a'r gallu i adeiladu perthnasoedd gwaith effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid.

Byddwch yn gallu dangos:

- Bydd gennych radd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc cysylltiedig, neu brofiad cyfatebol ym maes cyfathrebu
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Profiad o ddarparu cyfathrebiadau mewnol a / neu allanol.
- Profiad o greu cynnwys deniadol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a sianeli, gan gynnwys cyfryngau digidol a chymdeithasol.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol.
- Y gallu i adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a dylanwadu ar randdeiliaid ar bob lefel.
- Barn gadarn a'r gallu i drin gwybodaeth sensitif yn briodol.
- Sgiliau Cymraeg i Lefel 4. Bydd angen i chi fod yn siaradwr Cymraeg rhugl, gyda sgiliau ysgrifenedig a rhyngbersonol rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sylwch fod y swydd hon yn destun gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys Gwiriad DBS, prawf Cyffuriau ac Alcohol a geiradaon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi'i wario neu heb ei wario) ar y

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwngw i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.



Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos



Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

DBS, bydd dull seiliedig ar risg ar reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i:

recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflen gais yw 12.00 hanner dydd, 20 Tachwedd 2026 a disgwylir i'r cyfweiliadau ddigwydd wythnos yn dechrau 30 Tachwedd 2026.

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.